

Ein Datganiad Cenhadaeth

Mae ein Datganiad Cenhadaeth yn amlinellu ein hamcanion fel adran ac yn sicrhau ein haddewid i gynnal diddordebau ein myfyrwyr, ein staff a'r holl bartïon sy'n gysylltiedig â Gwasanaethau Preswyl.

Ein cenhadaeth yw darparu ystod o lety i fyfyrwyr, sy'n cwrdd ag anghenion pawb, o'r safon uchaf posibl. Wrth wneud hynny, rydym yn ystyried chwe egwyddor greiddiol:

- Gwasanaeth o safon
- Cymorth lles
- Cyfraniad, cyfrifoldeb, a datblygu cymunedol
- Parch, dealltwriaeth, didwylledd, a gonestrwydd
- Gwerthfawrogi adborth a chyfathrebu da
- Gwerth am arian